# Llawlyfr Ysgol

# 2024-2025

---

Ysgol Glancegin,
Maesgeirchen,
Bangor,
Gwynedd,
LL57 1ST.
01248 353097

Annwyl Rieni,

Croeso i'n hysgol. Mae Ysgol Glancegin yn unigryw, ac mae gennym blant arbennig iawn sy'n dod i'n hysgol. Maent yn arbennig oherwydd eu hanwyldeb a'u gallu naturiol i fod yn ddiolchgar am y profiadau maent yn eu cael yn yr ysgol. Gyda gofal, a gyda'r arweiniad gorau gan rieni, y gymuned a holl staff yr ysgol, bydd y plant yn ffynnu.

Mae'r plant yn llenwi'r ysgol gyda'u hapusrwydd, oherwydd yng Nglancegin mae yn awyrgylch arbennig iawn.

Rydym wedi buddsoddi'n fawr mewn sicrhau bod ein plant yn teimlo'n dda, yn cael eu parchu ac yn gwybod sut i barchu eraill. Rydym yn rhoi blaenoriaeth i ymarfer y sgiliau sydd eu hangen ar blant i ddod yn ddysgwyr effeithlon, ac rydym yn arbenigo mewn adnabod yn gynnar unrhyw rwystr sy'n effeithio ar y nod yma.

Rydym yn adnabod llwyddiannau disgyblion ym mhob gwers, a rhoddir yr un pwyslais ar eu lles a'u datblygiad emosiynol.

Mae ein systemau ar gyfer hyrwyddo ymddygiad positif ac anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu hystyried yn arfer dda drwy'r sir gyfan, ac rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor ar brosiectau ymchwil i wella ein sgiliau a gwella canlyniadau ein disgyblion.

Ein nod yw i'r holl ddisgyblion fod yn hapus, yn garedig ac yn driw i'w gilydd a chael nifer fawr o brofiadau gwerthfawr sy'n galluogi iddynt ddatblygu'n feddyliol ac yn gymdeithasol. Anelwn i ddarparu popeth sydd orau i addysg gynradd. Teimlwn y dylai rhieni a'r gymuned fod yn rhan o'r ysgol ac rydym yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau'r addysg orau bosib i'r plant er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial unigryw eu hunain.

Mae'r ysgol yn cynnig addysg Gymraeg a dwyieithog i safon uchel i blant Maesgeirchen o 2 – 11 oed, gan ddechrau yn Caban Cegin cyn trosglwyddo i'r Cyfnod Sylfaen yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed, ac wedyn CA2.

Hoffem gymryd y cyfle hwn i ddiolch i chi am ddewis Ysgol Glancegin, ysgol ardderchog ar garreg eich drws. Ei nod yw darparu'r addysg orau bosib, gan gynnig amrywiaeth eang o brofiadau i bob plentyn sy'n dod i'n hysgol. Mae hyn yn digwydd orau drwy bartneriaeth rhwng yr ysgol a'r cartref.

**Mr Carl Griffiths**
**Pennaeth**

**Miss Charlotte Ward**
**Dirprwy Bennaeth**

# Nodau ac Amcanion

● Hybu cydweithio a phontio cysylltiadau'r ysgol gyda'r gymuned trwy gymryd rhan ym mywyd y gymuned.
● Cynnwys y disgyblion, rhieni, athrawon, staff cefnogol, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach yng ngweithgarwch yr ysgol drwy ddarparu hyfforddiant a defnyddio eu harbenigedd i gyfoethogi'r cwricwlwm.
● Sicrhau bod y plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod ethos bugeiliol cryf a bondiau cyfeillgarwch yn amlwg yn yr ysgol.
● Creu awyrgylch hapus a gweithgar yn seiliedig ar barch a gofal at ein gilydd, plant fydd gan deimlad o hunan-werth a gwerth ym mhawb o'u cwmpas fel eu bod yn datblygu yn aelodau cyflawn a chyfrifol o'r gymuned.
● Darparu addysg o'r ansawdd uchaf posibl a chwricwlwm cynhwysol fydd yn galluogi pob plentyn i ddatblygu i'w lawn botensial.
● Sicrhau bod pob plentyn yn datblygu i fod yn rhugl yn y ddwy iaith ac y cânt eu trochi yn nhreftadaeth Cymru.

# Polisi Derbyn yr Ysgol

Caiff disgyblion eu derbyn i'r ysgol yn unol â Pholisi Derbyniadau yr AALl. Yn unol â'r polisi hwn, mae disgyblion y dosbarth Meithrin yn cael eu derbyn yn rhan amser (boreau) i'r ysgol yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed. Mae disgyblion y dosbarth Derbyn yn cael eu derbyn yn llawn amser yn y mis Medi ar ôl iddynt droi'n 4 oed.

Felly, er mwyn ceisio am le yn yr ysgol, mae'n rhaid cyflwyno'r cais ar-lein ar wefan Cyngor Gwynedd cyn Ebrill 1af bob blwyddyn. Mae'r dolenni hyn i'w gweld isod:

Mynediad i'r Dosbarth Meithrin (llyw.cymru)

Mynediad i'r Dosbarth Derbyn (llyw.cymru)

Yn yr un modd, dilynir Polisi Derbyniadau'r AALl i drosglwyddo plant hŷn o un ysgol i'r llall. Mae'n arferol i ddisgyblion sy'n trosglwyddo i Gyfnod Allweddol 2 heb fod yn medru siarad Cymraeg, fynychu'r Uned Iaith yn Ysgol Tryfan am dymor.

# Sesiynau

**Clwb Brecwast**
Ar gael i'r holl blant i fyny at Flwyddyn 6.

8.05 a.m. tan 8.45 a.m. – mae'n rhaid talu ffi o £1 y plentyn ar gyfer disgyblion sy'n cyrraedd y clwb brecwast rhwng 8.05 a.m. a 8.25 a.m. Mae'r sesiwn am ddim ar ôl 8.25 a.m. Mae'n rhaid i chi archebu lle i'ch plentyn yn y Clwb Brecwast trwy'r ap School Gateway (mae'n rhaid archebu ar gyfer y sesiwn talu a'r sesiwn am ddim).

Mae'r disgyblion meithrin yn cael dod i'r clwb brecwast unwaith maent wedi setlo'n llwyr yn yr ysgol. Gofynnwn i chi adael amser i'r disgyblion setlo yn yr ysgol gyntaf cyn gofyn i ni ystyried unrhyw geisiadau unigol.

**MAE'N BWYSIG BOD Y SESIYNAU YN CAEL EU HARCHEBU YMLAEN LLAW. GWELER Y WYBODAETH AM SCHOOL GATEWAY.**

**Sesiynau'r Dosbarthiadau**

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen Meithrin (sesiynau bore) | 8.55 a.m. tan 11.30 a.m |
| Cyfnod Sylfaen D, Bl 1, Bl 2, Bl 3, Bl 4, Bl 5, Bl 6 | 8.55 a.m. tan 3 p.m |

**Amseroedd Egwyl**

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen M, D, Bl 1, Bl 2 | 10.15 a.m. tan 10.30 a.m |
| Blwyddyn 3 a 4 | 10.30 a.m tan 10.45 a.m |
| Blwyddyn 5 a 6 | 10.45 a.m – 11.00 a.m |
| Cyfnod Sylfaen D, Bl 1, Bl 2 | 1.45 p.m – 2.00 p.m |

**Gofal Cofleidiol a'r Clwb ar ôl Ysgol**

Mae Caban Cegin yn rhedeg cyfleuster gofal plant (Mudiad Ysgolion Meithrin) ar gyfer plant rhan-amser a chyfleuster clwb ar ôl ysgol (Clybiau Plant Cymru) sy'n rhedeg yn ystod y tymor ysgol. Cysylltwch â Caban Cegin am ragor o wybodaeth ar 01248 352230.

**Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf 'Bwyd a Hwyl'**

Mae'r ysgol yn cymryd rhan yn y Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf 'Bwyd a Hwyl'. Caiff ei chynnal yn flynyddol am 12 diwrnod (3 wythnos) yn ystod gwyliau'r haf.

# Amseroedd Tymhorau 2024/2025

Dyddiau HMS ar gyfer staff ar ddydd Llun (2/9/24) a dydd Mawrth (3/9/24). Diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd newydd i ddisgyblion yw dydd Mercher, 4 Medi 2024.

Bydd yna 4 diwrnod HMS arall i'w cymryd gan ysgolion yn ystod 2024-25.

| Gwyliau | Dechrau ar | Gorffen ar |
|---|---|---|
| Hanner tymor Hydref | 28 Hydref 2024 | 1 Tachwedd 2024 |
| Gwyliau Nadolig | 23 Rhagfyr 2024 | 3 Ionawr 2025 |
| Hanner tymor Gwanwyn | 24 Chwefror 2025 | 28 Chwefror 2025 |
| Gwyliau Pasg | 14 Ebrill 2025 | 25 Ebrill 2025 |
| Calan Mai (gŵyl banc) | 5 Mai 2025 | |
| Hanner tymor Haf | 26 Mai 2025 | 30 Mai 2025 |
| Gwyliau Haf | 22 Gorffennaf 2025 | 29 Awst 2025 |
| | | |

# Gwisg Ysgol

Mae gan yr ysgol hon wisg ysgol swyddogol, a pholisi clir. Er nad yw'n orfodol i wisgo gwisg ysgol, teimlwn fod gwisg ysgol yn hyrwyddo balchder yn yr ysgol a theimlad o berthyn, ac oherwydd hyn rydym yn disgwyl i'n holl ddisgyblion wisgo'r wisg swyddogol. Mae bod mewn gwisg ysgol yn hyrwyddo ymddygiad positif a bod yn aelod o dîm. Noder os gwelwch yn dda – mae'r ysgol yn y broses o gasglu stoc o wisg ysgol ail-law. Cysylltwch â ni yn yr ysgol am ragor o wybodaeth.

Genethod: Crys polo glas, siwmper las, sgert/trowsus plaen du neu lwyd, ffrog gingham gwyn/glas

Bechgyn: Crys polo glas, siwmper las, trowsus plaen du neu lwyd

Gofynnwn i bob plentyn wisgo esgidiau du plaen

Gwisg Addysg Gorfforol (genethod a bechgyn): Crys-T (gwyn) a siorts (du)
Tip: Dewch â'r dillad i'r ysgol ar ddydd Llun a gadewch nhw yn yr ysgol am yr wythnos

Gwybodaeth Bwysig o bolisi'r ysgol: Dim gemwaith – clustdlysau 'styd' yn unig, dim lliw gwallt neu steil gwallt eithafol, a dim colur.

# Dod â'ch plentyn i'r ysgol

Mae'n bwysig iawn fod eich plentyn yn dod i'r ysgol ar amser. Disgwylir i rieni plant y Cyfnod Sylfaen ddod â'u plant i'r ysgol a chasglu eu plant o'r ysgol bob dydd.

Mae nifer o'n plant yn cerdded i'r ysgol a bydd angen iddynt ddefnyddio'r llwybrau cerdded sy'n arwain i iard y Cyfnod Sylfaen neu CA2. Ar gyfer plant sy'n teithio mewn car ac a fydd angen cael eu hebrwng i'r ysgol, gofynnwn i rieni beidio mynd i mewn i faes parcio'r ysgol ar unrhyw adeg a pheidio â stopio ar y llinellau igam-ogam tu allan i'r ysgol.

Ni ddylai unrhyw blentyn ddod i'r ysgol tan 8.45 a.m. (oni bai eu bod yn mynychu'r clwb brecwast). Ni fydd yna unrhyw oruchwyliaeth i blant sy'n cyrraedd yr ysgol cyn 8.45 a.m.

Atgoffir rhieni fod cloch yr ysgol yn canu am 8.55 a.m. – y gloch yma yw cychwyn y diwrnod ysgol. Disgwylir i ddisgyblion fod yn barod i fynd i mewn i'r adeilad ar yr adeg hon. Mae'r giatiau ar dop y grisiau (sy'n arwain i'r iard) yn cael eu cau am 9 a.m. a bydd rhaid i unrhyw ddisgyblion sy'n cyrraedd yn hwyr fynd i mewn i'r ysgol drwy'r dderbynfa.

# Nôl eich plentyn

Ni fydd unrhyw blentyn yn cael ei drosglwyddo i ofal unrhyw un arall heblaw am y rhiant (neu oedolyn arall sydd â dyletswydd gofal dros y plentyn), oni bai bod yr ysgol wedi cael gwybod am unrhyw newid yn y trefniadau o flaen llaw.

Os bydd rhiant yn rhedeg yn hwyr i ddod i nôl eu plentyn, bydd aelod o staff yn gofalu am y plentyn. Gofynnwn yn garedig i chi gasglu eich plentyn ar amser a rhoi gwybod i'r ysgol os bydd problem yn codi fel y gallwn gysuro eich plentyn a'i sicrhau eich bod ar eich ffordd.

Caniateir i ddisgyblion CA2 adael yr ysgol ar eu pen eu hunain.

Mae'n bwysig ein bod yn gwybod pwy sy'n casglu eich plentyn o'r ysgol, neu os nad ydych yn rhoi caniatâd i'ch plentyn gerdded adref eu hunain (CA2 yn unig). Os oes unrhyw newid i'ch trefniadau arferol, rhowch wybod i'r ysgol ymlaen llaw os gwelwch yn dda. Os ydych yn debygol o fod yn hwyr i nôl eich plentyn, mae'n rhaid rhoi gwybod i'r ysgol. Ni fyddwn yn gadael i unrhyw blentyn adael tir yr ysgol heb ganiatâd y rhieni.

Rhieni sy'n gyfrifol am eu plentyn/plant tu allan i giatiau'r ysgol.

# Cinio Ysgol

Mae modd i chi ddewis ar ba ddyddiau mae eich plentyn yn cael cinio gan yr ysgol ac ar ba ddyddiau mae'n well gennych ddod â bocs bwyd i'r ysgol. Cofiwch fod angen i hyn fod yn batrwm wythnosol i'ch plentyn, a gallwch ond ei newid fesul tymor. Mae gennym y system hon fel y gallwn sicrhau bod y cofrestri cinio cyfrifiadurol yn gywir.

Dyma'r amseroedd cinio:

| | | |
|---|---|---|
| Cyfnod Sylfaen D, Bl 1, Bl 2 | - | 11.45 a.m tan 12.45 p.m |
| Blwyddyn 3, 4, 5 a 6 | - | 12.15 p.m tan 12.45 p.m |

Mae cinio ysgol am ddim i bob plentyn ers 1 Medi 2023.

Os yw eich plentyn yn cael cinio ysgol, byddwn yn cynnig pecyn bwyd iddo/iddi i fynd ar dripiau/ymweliadau ysgol. Byddwn yn gadael i ddisgyblion CA2 lenwi'r ffurflen archebu yn yr ysgol. Byddwn yn anfon y ffurflen archebu adref ar gyfer disgyblion y cyfnod sylfaen.

**Prydau Ysgol am Ddim i Bawb yn y Cynradd**:

- Medi 2023 ymlaen – pob disgybl yn cael cynnig cinio ysgol am ddim.

Mae cinio ysgol am ddim ar gael i bob disgybl cynradd ac uwchradd os yw eu rhieni neu warcheidwaid yn derbyn un o'r budd-daliadau a ganlyn:

1. Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ar sail incwm)
2. Cymhorthdal Incwm
3. Lwfans Ceisio Gwaith (ar sail incwm)
4. Credyd Treth Plant (gydag incwm trethadwy blynyddol heb fod yn uwch na £16,190).
5. Credyd Pensiwn (Gwarant)
6. Help o dan y Ddeddf Lloches a Mewnfudo 1999
7. Credyd Cynhwysol

Os ydych yn derbyn Budd-dal Tai neu Ostyngiad Treth Cyngor gan Gyngor Gwynedd, ni fydd angen i chi lenwi'r ffurflen gais am ginio ysgol am ddim, byddwn yn asesu eich hawl yn awtomatig. Os nad ydych yn derbyn Budd-dal Tai neu Ostyngiad Treth Cyngor gan Gyngor Gwynedd a'ch bod o'r farn fod gan eich teulu hawl i ginio ysgol am ddim, gallwch lawr-lwytho'r ffurflen gais oddi ar wefan Cyngor Gwynedd.

Mae'r ysgol wedi cofrestru gyda Chynllun Ysgolion Iach Gwynedd. Yn gysylltiedig â'r cynllun yma, rydym yn annog plant i gael cinio ysgol. Mae'r fwydlen cinio ysgol ar gael gan yr ysgol neu ar-lein ar wefan Cyngor Gwynedd.

# Bocs Bwyd

I hyrwyddo bwyta'n iach, gofynnwn yn garedig i chi gefnogi'r ymgyrch 'Ysgol Iach' pan fyddwch yn paratoi bocs bwyd i'ch plentyn, ac annog bwydydd iach.

# Melysion / Diod

Ni chaniateir i blant ddod â melysion, creision, byrbrydau neu ddiodydd i'r ysgol (ar wahân i ddŵr). Mae gennym ffynhonnau dŵr yn yr ysgol os yw disgyblion eisiau dod â photel i'r ysgol a'i hail-lenwi.

# Ffrwyth / Llefrith

Anogir disgyblion i ddod â'u ffrwyth eu hunain i'r ysgol.

Mae gan blant y Cyfnod Sylfaen hawl i gael llefrith am ddim bob dydd. Byddwn yn gofyn i chi gadarnhau ar wahân a fydd eich plentyn yn cymryd llefrith yn yr ysgol. Mae ar yr ysgol angen y wybodaeth hon er mwyn archebu'r swm cywir o lefrith.

# School Gateway - System Dalu

Dim ond drwy'r system ar-lein School Gateway y mae'r ysgol yn derbyn taliadau. Mae modd lawr-lwytho'r ap i unrhyw ffôn clyfar, neu gallwch fynd ar y wefan School Gateway. Byddwch hefyd yn gallu gweld balansau cinio ysgol/clwb brecwast a rhoi mwy o arian ar ei ben ar unrhyw amser. Byddwn yn rhoi gwybod i chi ar neges destun neu e-bost pan fydd eitemau newydd megis tripiau ysgol neu ddigwyddiadau i dalu amdanynt ar School Gateway. Mae'r system School Gateway yn arbed arian ac amser gweinyddu i'r ysgol, ond mae hefyd yn haws i rieni allu talu ar unrhyw adeg 24-7 ac mae'n cael gwared ar yr angen i ddisgyblion fod yn gyfrifol am arian parod.
**Cyfeiriwch, os gwelwch yn dda, at y daflen School Gateway am gyfarwyddiadau manwl.**

# Gofal Bugeiliol

Mae pob plentyn yn cael ei roi yng ngofal athro penodol, ond mae'r holl staff yn ceisio sicrhau diogelwch yr holl ddisgyblion. Mae Ysgol Glancegin yn annog plant i fod yn hunan-ddisgybledig, yn gyfrifol ac i ymddwyn yn barchus ac yn gwrtais bob amser.

# Cynnal Ymddygiad a Disgyblaeth Da

Disgwylir i bob disgybl gyfrannu at sicrhau cymuned sifil yn yr ysgol drwy:

Fod yn ystyriol, yn garedig ac yn gwrtais yn ei berthnasau gyda disgyblion eraill, holl staff yr ysgol ac unrhyw ymwelwyr.

● Ystyried a pharchu hawliau ac eiddo pobl eraill.
● Gwneud pob ymdrech i gadw'r ysgol a'i hamgylchedd yn daclus, a rhoi pob sbwriel yn y bin.
● Peidio â dod ag eitemau personol i'r ysgol e.e. teganau, oni bai bod athro'r dosbarth wedi gofyn iddynt wneud. Mae'r system ddisgyblu yn seiliedig ar bolisi o ganmol ymddygiad dymunol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo egwyddorion cefnogi ymddygiad da Webster Stratton. Mae pob athro yn gyfrifol am ymddygiad ei (d)dosbarth, ond os oes angen, gall disgybl gael ei gyfeirio i sylw'r Pennaeth neu'r Dirprwy Bennaeth.

Bydd unrhyw gosb a roddir yn cyd-fynd â chanllawiau'r AALl.

Mae'r ysgol yn ceisio dysgu'r disgyblion i wahaniaethu rhwng ffraeo dydd i ddydd rhwng ffrindiau a chyfoedion, a bwlio. Mae bwlio yn aml yn weithred fwriadol a bygythiol, ac yn gam-ddefnydd o bŵer. Ni fydd yr ysgol yn goddef unrhyw fath o fwlio. Os bydd bwlio'n digwydd, byddwn yn ymdrin â'r mater yn unol â'r canllawiau yn y Polisi Gwrth-Fwlio.

Mae'r ysgol yn gweithredu Polisi ar Rym Rhesymol i'w ddefnyddio gan staff mewn amgylchiadau penodol er mwyn cadw lefel dderbyniol o ddiogelwch.

# Diogelwch

Cymerwyd pob cam ymarferol a rhesymol i sicrhau amgylchedd iach, diogel a sicr i ddisgyblion ac ymwelwyr sy'n defnyddio adeilad, iard a thir yr ysgol.

● Mae'r ysgol yn adolygu trefniadau iechyd a diogelwch yn rheolaidd ar gyfer disgyblion a staff.
● Mae dyfeisiau 'cod mynediad diogel' ar y drysau allanol sy'n atal mynediad anawdurdodedig.
● Mae'n rhaid i'r holl ymwelwyr adrodd i'r dderbynfa cyn cael mynediad i weddill yr ysgol.
● Mae disgyblion yn cael eu goruchwylio yn ystod amser egwyl gan athrawon neu aelodau staff ategol.
● Cynhelir ymarferion tân unwaith bob tymor i atgoffa disgyblion o'r gweithdrefnau gwacau.
● Ni chaniateir i ddisgyblion adael tir yr ysgol ar unrhyw adeg heb ganiatâd neu oruchwyliaeth aelod o staff. Os bydd plentyn yn gadael tir yr ysgol bydd y Pennaeth yn cysylltu â'r rhieni, ac os na fydd modd cysylltu, efallai y bydd rhaid i ni alw'r Heddlu er mwyn sicrhau diogelwch unrhyw blentyn a allai fod mewn perygl tu allan i derfyn yr ysgol.
● Os yw plentyn yn sâl neu wedi bod mewn damwain, byddwn yn cysylltu â'r rhieni. Os nad oes modd cysylltu â'r rhieni, bydd yr ysgol yn gwneud y trefniadau angenrheidiol i ofalu am y plentyn fel bo'n briodol.

Mae’r holl ddisgyblion, athrawon a staff ategol yn ymwybodol o'r goblygiadau diogelwch sydd ynghlwm â defnyddio:
● Offer/adnoddau Addysg Gorfforol, Technoleg Gwybodaeth a Gwyddoniaeth
● Goruchwyliaeth o'r disgyblion yn ystod amseroedd egwyl

Mae gofyn i rieni roi gwybod i'r ysgol os oes unrhyw newid i'r trefniadau arferol ar gyfer nôl plant o'r ysgol.

Ni fydd yr ysgol yn caniatáu i blant adael yr ysgol heb gytundeb ymlaen llaw gyda'r rhiant/gofalwr.

# Cyfle Cyfartal

Yn unol â´r Ddeddf Cysylltiadau Hil (Diwygio) 2000, mae'r ysgol wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal, hyrwyddo cysylltiadau da rhwng amrywiol aelodau o grwpiau a chymunedau hil, diwylliannol a chrefyddol, ac i gael gwared ar wahaniaethau ar sail hil neu ryw.

Mae gan yr ysgol amryw o bolisïau sy'n hyrwyddo cynhwysiad gwahanol ddisgyblion. Gellir cael copi o'r polisïau hyn drwy gysylltu â'r Pennaeth.

Mae'r Polisi Hygyrchedd yn cyfeirio at y trefniadau hwyluso mynediad i ddisgyblion anabl. Gwneir pob ymdrech i sicrhau nad ydym yn gwahaniaethu yn erbyn y disgyblion hyn o gymharu â disgyblion eraill. Darperir cefnogaeth fugeiliol ac academaidd gyfartal i ddisgyblion anabl, o fewn fframwaith arferol yr ysgol.

# Presenoldeb a Phrydlondeb

Disgwyliwn i bob plentyn gyrraedd yr ysgol yn brydlon. Ni ddylai unrhyw blentyn gyrraedd yr ysgol cyn 8.05 a.m ar gyfer y 'Clwb Brecwast' neu cyn 8.45 a.m. ar gyfer yr ysgol. Dylid rhoi gwybod i'r ysgol am BOB absenoldeb. Os na roddir gwybod i'r ysgol, bydd yr ysgol yn anfon neges destun i'r rhieni yn gofyn am reswm am yr absenoldeb. Bydd pob absenoldeb lle na roddwyd rheswm amdano yn cyfrif fel absenoldeb anawdurdodedig. Bydd presenoldeb yn cael ei fonitro'n agos gan yr ysgol a Swyddog Lles yr Awdurdod.

# Absenoldebau

Rydym yn deall fod plant yn sâl neu'n methu dod i'r ysgol am resymau eraill o bryd i'w gilydd. Ar adegau fel hyn, gofynnwn i chi:

- roi galwad ffôn i'r ysgol
- anfon neges destun i'r ysgol
- ysgrifennu nodyn byr yn egluro'r absenoldeb.

Gofynnwn yn garedig i rieni beidio â thynnu eu plant o'r ysgol yn ystod y tymor i fynd ar wyliau os oes modd osgoi hynny. Mae Corff Llywodraethwyr Ysgol Glancegin yn rhoi caniatâd i rieni dynnu eu plant o'r ysgol i fynd ar wyliau am hyd at ddeg diwrnod mewn blwyddyn. Cyn trefnu gwyliau yn ystod wythnos ysgol, dylai rhieni gael caniatâd y Pennaeth. Gall y polisi hwn gael ei addasu ar fyr rybudd i gydymffurfio â rheoliadau statudol y Llywodraeth.

Pan fo presenoldeb afreolaidd disgybl yn peri pryder, byddwn yn gofyn am gefnogaeth y Swyddog Lles Addysg.

Bydd y Corff Llywodraethu yn rhoi gwybod yn ysgrifenedig i'r rhieni am ganrannau absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig y disgyblion h.y. absenoldebau gyda neu heb eglurhad ysgrifenedig, yn yr Adroddiad Blynyddol i rieni.

# Polisi Iaith

**Nodau Cyffredinol**

Meithrin agwedd gadarnhaol tuag at y ddwy iaith.

Datblygu gallu iaith yn y ddwy iaith.

Meithrin diddordeb mewn gwahanol ffurfiau o lenyddiaeth.

Creu ymwybyddiaeth o werth treftadaeth Gymreig.

Y prif nodau yn y Cyfnod Sylfaen fydd rhoi sylfeini cadarn yn y Gymraeg i bob plentyn. Gan mai yn y cyfnod cynnar yma y mae plentyn yn fwyaf parod i amsugno iaith, mae'n bwysig eu bod yn derbyn amrywiaeth o brofiadau ysgogol.

Adeiladir ar y sylfeini sy'n cael eu gosod i'r Gymraeg ym mlwyddyn 1 a 2, er mwyn galluogi'r plentyn i gyflawni'r nod o ddwyieithrwydd yn y pen draw; cryfhau a datblygu mamiaith y disgybl sy'n dysgu Cymraeg, ac ymestyn gafael plant o gartrefi Cymraeg ar y Saesneg.

Yng Nghyfnod Allweddol 2 byddwn yn cyfnerthu ac yn datblygu Cymraeg a Saesneg pob plentyn ymhellach, i sicrhau ei fod yn medru sgwrsio, darllen ac ysgrifennu yn y ddwy iaith yn rhugl ac yn hyderus pan fydd yn trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd.

Fe wneir trefniadau i hwyrddyfodiaid fynychu'r Uned Iaith yn Ysgol Tryfan lle mae yna gyfleusterau i gyflwyno cyrsiau dwys arbenigol ar gyfer dysgwyr. Bydd y dysgwyr yn trosglwyddo'n ôl i'r ysgol gynradd ymhen tymor.

Mae'r ysgol yn dilyn 'Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd' ac mae'n dilyn cynllun gweithredu'r rhaglen sy'n arwain at wobrau efydd, arian ac aur. Felly, disgwylir y bydd y Gymraeg yn cael ei defnyddio i gynnal sgyrsiau anffurfiol yn y dosbarth ac ar yr iard. Gellir cael copi o'r Polisïau Iaith drwy gysylltu â'r Pennaeth.

# Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae Ysgol Glancegin yn anelu i ddarparu cyfleoedd cyfartal yn gwricwlaidd a chymdeithasol i ddisgyblion gydag ADY. Rydym yn cydweithio'n agos gyda rhieni i sicrhau partneriaeth effeithiol i gynorthwyo'r disgybl. Rydym yn cydweithio'n effeithiol gydag asiantaethau statudol a gwasanaethau eraill sy'n ymwneud â'r plentyn a'i anawsterau.

Y Pennaeth sy'n dal y cyfrifoldeb am y polisi, a Chydlynydd ADY yr ysgol yw Mrs Caren Wyn Rowlands.

Bydd pob disgybl gydag ADY yn dilyn y cwricwlwm gyda disgyblion eraill. Os oes anawsterau'n codi, yna:

- mae sylw un i un yn cael ei ddarparu yn y dosbarth;
- mae gwaith gwahaniaethol yn cael ei osod gan yr athrawon dosbarth a'r athro ADY;
- cynhelir ymgynghoriadau gydag asiantaethau cefnogol;
- cynhelir trafodaethau gyda rhieni;
- paratoir cynllun addysg personol ar gyfer disgyblion sydd yn y cam Cefnogaeth Ysgol, Cefnogaeth Ysgol a Mwy, a disgyblion sydd ar Ddatganiad.

Darperir cefnogaeth mewn grwpiau bach i ddisgyblion penodol bob wythnos, yn bennaf er mwyn datblygu llythrennedd a rhifedd, a bydd rhai yn derbyn sylw'n wythnosol gan yr Athrawes Gwybyddiaeth a Dysgu ar gyfer y dalgylch. Gall yr AALl drefnu lle mewn Unedau Arbennig i rai disgyblion.

Nod yr ysgol fydd darparu canllaw ac arweiniad a fydd yn gweddu i anghenion eich plentyn drwy gydol ei amser yn yr ysgol. Os oes gennych unrhyw bryderon am ddatblygiad eich plentyn neu weinyddiaeth y Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol, erfyniwn arnoch i gysylltu ag athro eich plentyn yn gyntaf, neu'r Pennaeth.

# Plant Mewn Gofal

Mae'r Cydlynydd Amddiffyn Plant, Mr Carl Griffiths, yn gyfrifol am sicrhau bod gan blant sy'n derbyn gofal fynediad llawn a chyfartal i bob maes o'r cwricwlwm.

# Cwricwlwm yr Ysgol

Darperir cwricwlwm cytbwys ac eang sy'n rhoi sylw i ddatblygiad ysbrydol, moesol, meddyliol, cymdeithasol, corfforol ac emosiynol y plentyn. Fe wneir hyn drwy ddull thematig yn bennaf. Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cael ei weithredu yn yr ysgol a chaiff ei ddysgu o fewn chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDP):

- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Iechyd a Llesiant
- Dyniaethau
- Celfyddydau Mynegiannol

# Addysg Gorfforol

Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau i'r disgyblion, ond mae'n bosib na fydd rhai'n berthnasol i'ch plentyn hyd nes y mae ef/hi yn ddisgybl hŷn yn yr ysgol. Y gweithgareddau sydd ar gael yw:

- Gwersi Nofio
- Cystadlaethau chwaraeon yn erbyn ysgolion eraill (pêl-droed, pêl-rwyd, criced)
- Diogelwch Beic
- Clwb Chwaraeon yr Urdd
- Cynllun Criced
- Cyrsiau Awyr Agored ym Mhlas Menai

Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ardal a sirol – nofio/chwaraeon/athletau a gweithgareddau'r Urdd.

Os oes unrhyw reswm meddygol pam na all plentyn gymryd rhan mewn gwersi Addysg Gorfforol, gofynnwn yn garedig i'r rhieni roi gwybod i'r ysgol yn ysgrifenedig.

# Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd

Nid oes gan yr ysgol unrhyw gysylltiad uniongyrchol neu ffurfiol ag unrhyw Eglwys ac ati. Mae'r addysg grefyddol a ddarperir yn seiliedig ar y maes llafur cytunedig, ac mae copi ohono ar gael i'w ddarllen yn yr ysgol. Gellir gwneud trefniadau addas ar gyfer plant y mae eu rhieni yn gwrthwynebu iddynt dderbyn cyfarwyddyd crefyddol neu fynychu gwasanaethau crefyddol. Dylai rhieni sy'n dymuno gwneud hyn drafod y mater gyda'r Pennaeth.

# Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh)

Mae'r Cod ACRh mandadol yn cefnogi ysgolion i ddatblygu eu Haddysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Mae'r cynnwys wedi'i osod yng nghyd-destun llinynnau dysgu cysylltiedig bras, sef: perthnasau a hunaniaeth, iechyd rhywiol a lles, grymuso, diogelwch a pharch. Mae'r llinynnau hyn yn gadael i ymarferwyr lunio a datblygu cwricwlwm sydd wedi'i deilwra i'w dysgwyr, gan wneud cysylltiadau a datblygu cyd-destunau dysgu dilys ym mhob rhan o'r cwricwlwm.

# Y Cytundeb Cartref-Ysgol

Mae gan yr ysgol 'Gytundeb Cartref/Ysgol' sy'n egluro beth mae'r ysgol yn ei ddisgwyl o ran ymrwymiad y rhieni/gwarcheidwaid a'r disgyblion i gefnogi'r ysgol, ac ymrwymiad yr ysgol i gydweithio a darparu'r gwasanaeth gorau i rieni/gwarcheidwaid a disgyblion.

# Asesu

Mae Ysgol Glancegin wedi buddsoddi mewn teclyn asesu ffurfiannol ar y we. Mae cynnydd disgyblion unigol yn cael ei asesu'n barhaus gan ddefnyddio'r system tracio Taith360. Rydym yn cynnal Nosweithiau Rhieni ffurfiol ddwywaith y flwyddyn lle mae rhieni yn sgwrsio gyda'r athro dosbarth i drafod cynnydd yng ngwaith eu plant. Mae ganddynt hefyd gyfle i gyfarfod ar ddiwedd y trydydd tymor ar ôl cyhoeddi'r adroddiad blynyddol.

# Gweithgareddau Allgyrsiol

Mae'r ysgol yn cynnal rhaglen o weithgareddau allgyrsiol sy'n cynnwys perfformio mewn cyngherddau a rhaglenni chwaraeon. Caiff y rhain eu trefnu yn ystod y tymor a bydd rhieni'n cael gwybod yn unol â hynny.

# Ymweliadau

Trefnir ymweliadau yn seiliedig ar y themâu bob tymor. Bydd yr athrawon dosbarth yn edrych ar ymweliadau priodol a fydd yn cefnogi dysgu ac addysgu effeithiol. Mae siaradwyr gwadd yn cael eu gwahodd i annerch y plant yn yr ysgol.

# Codi Tâl am Weithgareddau

Mae gan bob plentyn yr hawl i addysg am ddim, ac mae hyn yn wir yn Ysgol Glancegin. Rhagwelir y bydd rhai tripiau'n cael eu trefnu yn ystod oriau ysgol na fydd yn rhan hanfodol o'r gwaith cwrs ond y bydd y plant yn elwa ohonynt. Yn ôl y Ddeddf, nid oes gan yr ysgol hawl i godi tâl am dripiau o'r fath, ond mae ganddi'r hawl i:

- ofyn am gyfraniad gwirfoddol tuag at y gost o drefnu trip o'r fath
- gofyn i asiant allanol drefnu'r trip

Oni bai y gwneir cyfraniadau o'r fath, mae'n bosib na fydd modd cynnal y gweithgaredd.

Mae'r Pennaeth yn cadw'r hawl i ganslo gweithgaredd os yw cyfraniadau isel yn golygu colled sylweddol i'r ysgol.

# Gweithgareddau Blynyddol

Dyma rai o'r gweithgareddau sy'n digwydd yn flynyddol yn yr ysgol:


- Bore Coffi Macmillan
- Plant mewn Angen
- Diwrnod Trwyn Coch
- Diwrnod y Llyfr
- Cynllun Bwyd a Diod
- Blas (Pontio)
- Operation Christmas Child
- Cyngerdd Nadolig
- Ffair Nadolig
- Codi’r To (Gwersi/Cyngherddau)
- Ymestyn yn Ehangach (Prifysgol Bangor)
- Cystadlaethau Chwaraeon
- Tripiau Ysgol
- Mabolgampau
- Arhosiad Preswyl Plas Menai
- Arhosiad Preswyl Caerdydd

# Y Drefn Gwyno

Yn anffodus, mae lleiafrif bychan iawn o rieni yn teimlo'r angen i wneud sylwadau difrïol am yr ysgol neu staff unigol ar gyfryngau cymdeithasol. Gwaetha'r modd, nid oes gan yr ysgol unrhyw hawl i ymateb neu gyflwyno ffeithiau i'w hamddiffyn ei hun er bod llawer o'r hyn a ysgrifennir yn aml gan "ffrindiau" y postiwr gwreiddiol sy'n "ymuno" heb wybod dim am ein hysgol neu'r sefyllfa.

Mae gennym bolisi cwynion sydd ar gael yn nerbynfa'r ysgol (darperir amlinelliad ohono isod). Y cam cyntaf yn y polisi yw cysylltu â'r ysgol. Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn "deulu ysgol cynhwysol" ac mae sarhad cyhoeddus yn erbyn ein hysgol yn brifo'r staff a'r disgyblion fel ei gilydd, heb sôn am y difrod i'n henw da mae hyn yn ei achosi'n gyhoeddus. Mae gan staff fynediad at lawer o'r hyn sy'n digwydd ar gyfryngau cymdeithasol, a phobl ydyn nhw hefyd fel pawb arall.

Bydd yr ysgol yn ymdrechu i helpu ac yn gwneud ei gorau glas i ddatrys unrhyw faterion sy'n dod i'n sylw. Gallwn fel arfer helpu sefyllfaoedd a/neu gyfeirio rhieni at asiantaethau sydd hefyd yn gallu cynorthwyo. Fodd bynnag, os yw rhieni / gwarcheidwaid yn teimlo nad yw'r ysgol wedi datrys sefyllfa neu y gallwn wneud mwy, rydym yn eich annog i ddilyn trefn gwynion yr ysgol.




Dyma'r unig ffordd y gall yr ysgol a'r Corff Llywodraethu ymchwilio ymhellach, gan obeithio datrys pryder yn llwyr.

# Cyfryngau Cymdeithasol

Yn dilyn cynnydd yn y defnydd o wefannau rhwydweithio cymdeithasol yn y blynyddoedd diweddar (e.e. Facebook, Twitter ac ati), gofynna'r ysgol yn garedig i chi fel rhiant/gwarcheidwad, eich bod yn cymryd sylw o'r pwyntiau canlynol wrth ddefnyddio'r gwefannau hyn.

Yn gyntaf, fe'ch hatgoffwn fod y gwefannau hyn yn lle anaddas i ysgrifennu sylwadau difrïol am yr ysgol, athrawon neu ddisgyblion eraill. Fe allai sylwadau neu honiadau o'r fath gael eu hystyried yn enllibus gan arwain at gamau cyfreithiol. Fel y byddwch yn ymwybodol, gallai nifer o ddefnyddwyr y wefan a'r rhyngrwyd yn gyffredinol gael mynediad at sylwadau a wneir ar wefan o'r fath, felly, os gwelwch yn dda, byddwch yn ofalus o ran y deunydd sy'n cael ei bostio.

Pwysleisiwn hefyd, petai unrhyw fater neu broblem yn gysylltiedig â'r ysgol yn codi, mae yna weithdrefn ffurfiol ar gael lle gallwch drafod y rhain yn uniongyrchol gyda'r ysgol. Hefyd, petai gennych unrhyw bryderon am unrhyw sylwadau neu honiadau a wneir ar y gwefannau hyn am yr ysgol neu eich plentyn yn ei gapasiti fel disgybl, yna gallwch hefyd drafod sylwadau neu honiadau o'r fath yn uniongyrchol gyda'r ysgol. Byddwn yn delio gyda phob mater yn gwbl gyfrinachol.

# Amddiffyn Plant

Fel rhan o'r gweithdrefnau amddiffyn plant, mae gan athrawon a staff cefnogol yn yr ysgol hon gyfrifoldeb i adnabod arwyddion o gam-drin posib neu esgeulustra posib neu gyfeirio eu pryderon at yr unigolion cyfrifol yn yr ysgol neu i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae ein polisi'n cynnwys tair prif elfen: -

● ataliaeth, y mae'r gefnogaeth ddysgu a fugeiliol yn ei darparu i ddisgyblion;
● gweithdrefnau i adnabod digwyddiadau neu amheuaeth o gam-drin, ac adrodd arnynt. Oherwydd ein cyswllt dyddiol â phlant, mae staff yr ysgol mewn sefyllfa dda i sylwi ar unrhyw arwyddion allanol o gam-drin; a
● cefnogi disgyblion sydd o bosib wedi cael eu cam-drin.

Mae ein polisi yn berthnasol i'r holl staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn yr ysgol, ac i'r llywodraethwyr. Mae'n ddigon posib mai cymhorthydd dysgu, goruchwylwyr canol dydd, gofalwyr, ysgrifenyddion, ynghyd ag athrawon, fydd y bobl gyntaf y mae plentyn yn datgelu gwybodaeth iddynt.

Y Swyddog Amddiffyn Plant yn Ysgol Glancegin yw Mr Carl Griffiths.

# Meddygol

Disgwylir i rieni ddweud wrth yr ysgol os oes gan eu plentyn gyflwr meddygol neu glinigol sy'n debygol o gael effaith ar allu, gwaith neu ymddygiad plentyn tra mae yn yr ysgol. Dim ond gyda'r staff dysgu y byddwn yn rhannu'r wybodaeth hon.

Os yw'r plentyn yn derbyn meddyginiaeth yn ystod y diwrnod ysgol, mae angen llenwi ffurflen yn yr ysgol. Mae'r rhain ar gael o swyddfa'r ysgol. Ni fyddwn yn rhoi unrhyw feddyginiaeth os nad yw'r ffurflen awdurdodi wedi'i llenwi.

Os yw plentyn yn cael damwain ac yn cael ei anafu tra mae yn yr ysgol, bydd y cymhorthydd cyntaf dynodedig yn rhoi cymorth cyntaf syml. Os yw'r anaf yn ddifrifol bydd yr ysgol yn cysylltu â'r gwasanaethau brys ac yn cysylltu â'r rhieni. Os nad yw'r ysgol yn gallu cael gafael ar y rhieni, eir â'r plentyn i'r ysbyty a bydd uwch aelod o staff yn mynd efo'r plentyn nes bod y rhieni'n cyrraedd. Mae gan yr ysgol system electronig ar gyfer cofnodi damweiniau yn yr ysgol, a bydd cofnod o unrhyw ddigwyddiad o'r fath yn cael ei anfon ar e-bost i'r rhieni.

# Rhieni'n ymweld â'r ysgol

Mae croeso i rieni gysylltu â'r ysgol i drafod unrhyw fater yr hoffent ei drafod; fodd bynnag, gofynnwn yn garedig i chi wneud apwyntiad lle bynnag y bo modd os dymunwch drafod unrhyw fater am hir.

Rydym wastad yn barod i fynd â rhieni newydd neu ddarpar rieni a'u plant o amgylch yr ysgol. Ffoniwch ni i drefnu ymweliad i gyfarfod y Pennaeth, y staff ac i weld y dosbarthiadau.

# Eich hawl i ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu'r ysgol

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (Y Ddeddf) wedi tynnu'r gofyniad i gyrff llywodraethu ysgolion gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni. Yn lle hyn, cyflwynwyd trefniadau newydd fel bod modd i rieni wneud cais am hyd at 3 cyfarfod mewn unrhyw flwyddyn ysgol gyda chorff llywodraethu ynghylch materion sy'n peri pryder iddynt. Os yw rhieni'n dymuno defnyddio eu hawliau dan y ddeddf i gynnal cyfarfod, bydd rhaid bodloni pedwar amod.

1. Bydd rhaid i rieni godi deiseb i gefnogi cynnal cyfarfod. Bydd angen i rieni o leiaf 30 o ddisgyblion cofrestredig arwyddo'r ddeiseb. Os yw'n ddeiseb bapur, yna mae'n rhaid rhoi llofnod ysgrifenedig ynghyd ag enw a dosbarth pob plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol. Os yw'n ddeiseb ar ffurf electronig, y 'llofnod' sydd ei angen yw enw'r rhiant wedi'i deipio ynghyd ag enw a dosbarth pob plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol a chyfeiriad e-bost pob rhiant sy'n 'arwyddo' y ddeiseb electronig.

Roedd 220 o blant wedi eu cofrestru fel disgyblion yn yr ysgol yma ar ddechrau'r flwyddyn academaidd hon. Gellir cael yr union niferoedd sydd ar y gofrestr ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn gan swyddfa'r ysgol.

2. Mae'n rhaid i'r cyfarfod gael ei alw er mwyn trafod materion sy'n effeithio ar yr ysgol. Ni ellir galw'r cyfarfod i drafod materion megis cynnydd disgyblion unigol, neu i wneud cwyn yn erbyn aelod o staff yr ysgol neu'r corff llywodraethu. Dylai'r ddeiseb gynnwys manylion cryno o'r mater(ion) sydd i'w trafod, a'r rhesymau am alw'r cyfarfod. Dylid dangos y wybodaeth hon yn glir ar frig y ddeiseb, gyda llofnodion y rhieni oddi tanodd.

3. Gellir cynnal 3 chyfarfod ar y mwyaf yn ystod y flwyddyn ysgol. Mae'r gyfraith yn caniatáu i rieni ddefnyddio eu hawliau i wneud cais am hyd at 3 chyfarfod gyda chorff llywodraethu ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol.

4. Mae'n rhaid bod yna o leiaf 25 diwrnod o ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol. Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn amod bod yna o leiaf 25 diwrnod ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol pan dderbynnir y ddeiseb fel bod modd cynnal y cyfarfod. Mae "diwrnod ysgol" yn golygu diwrnod pan fo'r ysgol ar agor i'r disgyblion: nid yw'n cynnwys penwythnosau, gwyliau cyhoeddus, gwyliau ysgol neu ddyddiau HMS.

Y cyfeiriad ar gyfer cyflwyno deiseb yn gofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu'r ysgol hon yw: Ysgol Glancegin, Maesgeirchen, Bangor, Gwynedd. LL57 1ST. Mae rhagor o gyngor ar sut gall rhieni fynd ati i ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn:

http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/parents-meetingsstatutory-guidance/?lang=en

# Staff Dysgu

| | |
|---|---|
| Pennaeth | Mr Carl Griffiths |
| Dirprwy Bennaeth | Miss Charlotte Ward |

Mrs Ceri Evans
Miss Beca Thomas
Mrs Wendy Williams
Mrs Sharon Thomas
Miss Gwenllian Owen / Mrs Dawn Williams
Mrs Caren Rowlands
Miss Ela Jones
Mr Owain ab Einion

# Cymorthyddion Dosbarth

Mrs Carys Aston, Mrs Davina Parry, Miss Catrin Evans, Miss Alice Freeman, Mrs Marian Roberts, Mrs Janice Owen, Mrs Angela Jones, Miss Lynsday Allan, Mrs Gillian Evans, Mrs Sayera Khan, Miss Lucy Evans, Miss Jade Sherlock, Mrs Julie Lloyd, Mrs Jody Midwinter, Miss Alaw Williams.

# Gweinyddwr / Clerc i'r Llywodraethwyr

Miss Amanda McGuinness

# Staff Cefnogol

| | |
|---|---|
| Mr Mark Rowlands | Gofalwr |
| Mrs Candice Daniels | Goruchwyliwr Clwb Brecwast / Goruchwyliwr Canol Dydd / Glanhawr |
| Mrs Julie Lloyd | Goruchwyliwr Clwb Brecwast |
| Miss Alex Stenson | Glanhawr |
| Mrs Debbie Hughes | Cogydd |
| Mrs Janet Jeffreys | Cymhorthydd Cegin |
| Mrs Jackie Davies | Cymhorthydd Cegin |
| Mrs Diane Carr | Cymhorthydd Cegin |